Cylchlythyr GISDA

Rhifyn Haf 2010

Newyddion Adnoddau Dynol

Croeso i Lowri Dundee sydd wedi ei phenodi fel Cyd lynydd Busnes y Cwmni. Mae Lowri yn brysur yn trefnu ein dathliadau 25 mlynedd a sortio pasborts defnyddwyr gwasanaeth fydd yn mynd i Barcelona i dderbyn hyfforddiant Theatr Fforwm.

Croeso hefyd i Andrew Smalley, cyn defnyddiwr gwasanaeth, sydd wedi ei benodi fel gweithiwr cefnogol yn y cynlluniau. Mae Andrew hefyd yn brysur gyda pharatoadau

ar gyfer y dathliadau ac yn gyfrifol am y gwaith ar gyfer y Fenter Gymdeithasol gyda'r bobl ifanc.

Croeso'n ôl i Daniel Hall sydd wedi bod i ffwrdd yn teithio am chwe mis. Pawb yn falch iawn o'i weld yn ôl.

Ffarwelio a Glyn Price, Swyddog Llwybr Llwyddiant sydd wedi gadael i weithio yn y Gymuned ac i roi fwy o amser i'w fusnes celf.

Ffarwel cyn bo hir hefyd i Sonia Collis, rheolwr Cynllun Gogledd Gwynedd sydd yn mynd i weithio i Awstralia

Diolch i'r ddau ohonynt am eu gwaith diflino dros y blynyddoedd.

Dyddiad i'ch dyddiadur

Come Dine with me **Medi 2010** **Question Time** **Hydref 29, 2010**	**Trip i'r Traeth** **8fed o Orffennaf, 2010** **Sioe Ameithyddol Môn** **10fed & 11eg o Awst**

Cynnwys

Theatre Fforwm

Llwybr Llwyddiant

Manter Cymdeithasol

Byw yn yr Ardd

Newyddion Adnoddau Dynol

Dathlu 25 mlynedd

Gweithgareddau

Cysylltwch â ni

Tŷ Rhydalun
Penrallt Uchaf
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1PR

Ffôn —01286 671153

Ffacs — 01286 671182

gisda@gisda.co.uk

Gair gan y Bos

BWRDD RHEOLI
Croeso i Alun Peredur Griffith sydd yn ymuno a'r Bwrdd Rheoli. Mae Alun gyda phrofiad helaeth yn y maes ari-annol

Ffarwel i Richard Jones sydd yn ein gadael oherwydd ymrwymiad gwaith. Diolch iddo am ei gefnogaeth barod.

LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i ddau aelod o Fwrdd Rheoli GISDA:-
1. Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, Cyng. W Tudor Owen ar ei benodiad fel Arweinydd y Cyngor.
2. Cyng. Huw Edwards ar ei benodiad fel Maer Caernarfon.

BYGYTHIAD A HER
Hysbyswyd GISDA ym mis Medi 2009 bod Cyngor Gwynedd fel rhan o'u cynllun arbedion, yn ystyried tynnu cyfraniad yr Adran Dai o fis Ebrill 2011. Bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 13/07/2010. Fel pawb arall, nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth am newidiadau o ran toriadau o San Steffan.

Mair Richards

LLWYBYR LLWYDDIANT

Be sy'n digwydd?

Mehefin -
Mae criw o bobl ifanc yn gweithio ar ffilm yn trafod y pethau sydd yn anodd i bobl ifanc heddiw, sut i ffeindio gwaith, mynd i goleg a be all helpu. Rydym eisiau syniadau am fusnes/menter gymdeithasol yng Ngwynedd, y ffefryn ar y funud ydy pwll nofio a chaffi yn Nolgellau. Gobeithir trefnu ymweliad a Lido awyr agored yng Nghaer cyn diwedd y mis.
Mi fydd yna gystadleuaeth ffilm fer (3 munud) ar y gweill. Rydym yn parhau i drefnu ymweliadau Felin Uchaf yn Rhiw, Pen Llyn. Mae hwn yn le hudol a hardd lle gewch gyfle i helpu efo a dysgu crefftau gwledig am eich cinio.
Gorffennaf yr 8fed - Diwrnod o Hwyl a Sbri ar y traeth yn Black Rocks.
Gorffennaf y 13eg - Diwrnod i'r criw ffilmio yn Llanidloes.
Gorffennaf y 27ain - Pysgota.
Awst yr 2il - Rafftio ym Mhlas Menai, Caernarfon - hanner diwrnod o chwarae yn y dŵr.

Ar y gweill.

Cystadleuaeth Come Dine with Me.

Rhagor o ymweliadau i Felin Uchaf, Rhiw.

Gweithdai dawns hip-hop.

Gweithgareddau Awyr Agored - rhwyfo, hwylio, syrffio, caiacio, beicio, coasteering.

Mynd allan ar gwch cymunedol Pwllheli.

Bwyd gwyllt a sesiynau coginio.

Bwa saeth yng Nglynllifon (Dyddiau Sul)

Cystadleuaeth ysgrifennu can.

Ymweliad a Danger point
Hebog yr arfordir - dysgu trin adapt ysglyfaethus.

Isio dod? Unrhyw syniadau eraill? Isio mwy o wybodaeth?

Gofynnwch i Andy ar 07765 893 655 neu e-bostiwch andrew@gisda.co.uk

Theatre Fforwm

Mae'r bobl ifanc wedi bod yn brysur iawn yn rhoi perfformiadau ymlaen i Asiantaethau a Penneithiaid y Cyngor. Testun y perfformiad sydd wedi ei selio ar brofiadau'r bobl ifanc oedd y problemau maent yn ei wynebu sef, diffyg gwybodaeth ac os nad ydynt yn disgyn o dan y `blaenoriaeth angen' nid ydynt yn derbyn cefnogaeth ddigonol i gael mynediad at wasanaethau priodol. Yn dilyn y perfformiad i'r Penneithiad Cyngor Gwynedd derbyniwyd cadarnhad eu bod am edrych ar sut maent am wasanaethu pobl ifanc yn y dyfodol. Rydym nawr yn y broses o gyd-weithio gyda'r Cyngor er mwyn rhoi barn ar y gwasanaeth Gofal Cwsmer i bobl ifanc.

Mae criw Theatre Fforwm yn Barcelona ar hyn o bryd am wythnos, yn cael hyfforddiant Theatre Fforwm, gobeithio cael lluniau a hanes y trip i gyd ar gyfer y cylchlythyr nesaf.

MENTER GYMDEITHASOL

Menter Gymdeithasol
Mae criw o bobl ifanc GISDA yn cymryd rhan mewn menter gymdeithasol sy'n cael ei gyd-lynu gan Russell Sykes sy'n gweithio yn Llamau. Trefnwyd diwrnod yn Llanidloes i bawb oedd yn cymryd rhan ddŵad at ei gilydd, ac yn ystod y diwrnod cawsom gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau i bawb ymlacio. Gobaith y fenter yw adnabod beth sydd ar goll i bobl ifanc yn eu cymunedau ac oes 'na bosibiliad i gychwyn menter newydd lle all bobl ifanc cael profiad gwaith yno, ac mewn amser ar ol gael profiad a magu hyder, ymgeisio am swydd gyflogedig. Os oes yna bobl ifanc yn eich cynllun fyddai'n hoffi rhoi eu barn ar beth y byddem yn hoffi gweld fel menter cymdeithasol yn ei hardal plîs cysylltwch ag Andrew, sy'n cyd-lynu'r fenter yn GISDA ar andrew@gisda.co.uk neu 01286 671153.

BYW YN YR ARDD

Yn ddiweddar bu i Russell o raglen Byw yn yr Ardd ymweld â GISDA i roi help llaw i'r bobl ifanc sy'n byw yn Hafan (Hostel i bobl ifanc rhwng 16-25 yng Nghaernarfon) i roi trefn ar yr ardd. Bellach mae yna lysiau yn tyfu a gobeithir bydd Russell yn ymweld â Hafan yn yr Haf er mwyn gweld sut mae'r ardd yn dŵad yn ei flaen. Erbyn hynny fydd Russell yn cael pryd o fwyd gan y bobl ifanc gan ddefnyddio Cynnyrch o'r ardd.

CAIS LOTERI FAWR!

Mae cais wedi ei anfon i mewn i'r Loteri Fawr am arian i ehangu Llwybr Llwyddiant i gynnwys help efo unedau dysgu, mwy o weithgareddau a gwasanaeth cymodi - disgwyl ymateb ydym ar hyn o bryd, croeswch eich bysedd.

RACE FOR LIFE

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gwblhau'r Race for Life ym mis Mai, Da iawn i Angela, Justine, Catrin a Elin.

COGINIO I GYD FYND A CWPAN Y BYD

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn cael sesiynau coginio hefo ychydig o sbeis ynddyn nhw!
Am fod cystadleuaeth Cwpan y Byd yn cymryd lle yn Ne Affrica, mi oeddwn yn meddwl fod o'n syniad da i'r bobl ifanc goginio bwydydd i gyd-fynd a hyn, er enghraifft mi nes i chwilio ar Google am fwydydd traddodiadol De Affrica ac mi gefais rysáit ar gyfer coginio pryd o'r enw 'Monkey Gland Steak'. Mi roeddwn yn ddryslyd pan welais y rysáit yma, ond ar ôl darllen y rysáit i weld be oedd cynnwys y pryd roeddwn wedi synnu i weld 'na saws oedd o wedi ei wneud o nionod, tomatoes, Worcester sauce, tobassco sauce, garlleg, siwgwr brown, vinegar a mango chutney, mi gafodd hwn i goginio hefo stêc a reis. Mi oedden yn lwcus iawn cael Andrew Smalley yno gan ei fod yn gogydd i helpu ni
hefo'r pryd blasus yma. Diolch Andrew.
Mae Aled wedi coginio Fajitas Mexican, eto pryd syml iawn i'w goginio. Hefyd, mae Daniel yn ôl ar ôl bod yn teithio, ychydig o fwyd Italian goginiodd Daniel, ac oedd yn dweud fod y bwyd wedi mynd lawr mor dda, mi gysgodd y bobl ifanc ar ei ôl.

Matthew Webber (Gweithiwr Allweddol

NEWYDDION ERAILL

GWEFAN GISDA

Bydd gwefan Gisda yn cael i adnewyddu gan Lowri a Zowie. Bydd y wefan yn cael ei ail greu fel bod o'n fwy diweddar, bydd hyn yn cael ei wneud yn ystod mis Gorffennaf, bwriad hyn yw i ddenu fwy o bobl i edrych ar y wefan boed yn bobl ifanc, bysnesau lleol ayyb, gobeithan bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth am waith mae Gisda yn ei wneud. Bydd Gisda hefyd yn cael tudalen Facebook fydd yn cael ei reoli gan y tim rheoli ac Lowri a Zowie, bydd hyn yn cydfynd hefo'r wefan newydd, i drio dennu fwy o bobl i'r wefan.

SESSIWN PEINTIO MAM A'I PHLENTYN

Bwriad y diwrnod oedd i'r mamau gymeryd rhan mewn gweithgaredd ac i ddwad i nabod mamau eraill, ac yn cael diwrnod allan hefo'i plant bach.Mi gychwynnon y pnawn gan ofyn i'r mamau beintio canfas, ac wedyn rhoi cyfle iddyn nhw beintio traed a dwylo ei babis ar y canfas. Mi oedd yna lanast, ond yn lot fawr o hwyl ac yn werth pob munud! Mi gafodd y mamau fynd a'i canfas adref hefo nhw, a bydd hyn yn rhywbeth fydd y mamau yn medru dangos i'r plant pan fyddant yn hynach. Mi orffennon y pnawn hefo bwyd, a phawb yn hapus iawn!

FFLAT NEWYDD PALACE STREET

Dyma rhai o luniau o'r fflat newydd yn Palace Street, mae'r fflat yma yn cael eu ddefnyddio er mwyn gwneud amryw o wahanol weithgareddau hefo'r bobl ifanc a'u plant.

DATHLU 25 MLYNEDD O GISDA

Y flwyddyn yma mai wedi bod yn 25ain o flynyddoedd ers i Gisda gychwyn cynnig gwasanaeth i bobl ifanc, ac mi ydan ni wedi bod yn chwilio am ffyrdd i gydnabod y ffaith bod gwasanaethau Gisda yr un mor bwysig rŵan nag oedd o 25ain o flynyddoedd yn ol.

Ar ol cael trafodaeth hefo'r bobl ifanc ac aelodau o'r bwrdd a staff sut y bysa nhw'n licio cyd-nabod y ffaith rydym wedi penderfynu trefnu nifer o weithgareddau y bysa pawb yn medru cymryd rhan mewn, rydym hefyd yn gobeithio y bydd y digwyddiadau yma yn codi ymwybyddiaeth Gisda fel elusen. Mi oedd yna nifer o syniadau gwych gan bawb.

Roedd yna ddiddordeb mawr gan y bobl ifanc mewn gwneud rhyw fath o gystadleuaeth coginio wedi i selio ar Come Dine with Me/Master Chef. Y sialens nesaf ydi i ffeindio enwogion adnabyddus i'r bobl ifanc goginio i.

Yr ail syniad ydi i drefnu diwrnod o hwyl i bawb i ddathlu'r ffaith fod Gisda yn dal i helpu pobl ifanc dros Wynedd. Mi benderfynodd y bobl ifanc y basa nhw'n hoffi ychwanegu gemau pêl droed, cerddoriaeth a BBQ i'r digwyddiad, rhywbeth i'r teulu i gyd fwynhau yn ogystal â'r cyhoedd. Y trydydd digwyddiad fydd noson wedi i selio ar Question Time, lle fydd y gynulleidfa yn cael holi panel o bobl am eu pryderon a phroblemau mae'r bobl ifanc yn ei wynebu. Yn y gynulleidfa mi fydd criw o bobl ifanc Gisda, Digartref Ynys Môn, pobl ifanc o ysgolion, colegau ac eraill.

Mi fydd y gwahoddiadau yn cael eu gyrru allan yn fuan i'r gynulleidfa ac aelodau o'r panel. Mi fydd Winston Roddick QC yn cadeirio'r noson.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn helpu ni hefo'r paratoadau ar gyfer y dathliad yna cysylltwch â fi ar - LowriDundee@gisda.co.uk

DIWRNOD ADEILADU TIM

Ar y 9fed o Fehefin cawsom ddiwrnod adeiladu tîm, sef diwrnod i **BAWB** (Pwy A Ŵyr Be).

Aethom i'r Traeth ym Mhorthmadog mewn dirgelwch hollol o beth oedd yn ein hwynebu gan arweiniad Osian. Aethom adref wedyn wedi blino yn ffisegol ac yn feddyliol ar ôl profi amrywiaeth eang o weithgareddau o bobman yn y byd. Y *Tri Amigo, Bomb, 'ave you got a room?', Pulse, Columbian Hypnotist, Rain Game* - dyma esiamplau o'r gweithgareddau oedd yn ein hymarfer, yn gofyn am symudiadau chwim, ystwythder meddyliol, cyfathrebu di-lafar a chydweithio.

Aeth rhai ohonom yn ôl i'n plentyndod, rhai yn fwy nag eraill ac yn gystadleuol dros ben. Ond mwynhau'r profiad oedd yr adborth gan staff.

Ar gychwyn y dydd dywedodd Osian ei fod yn gallu dysgu lot am unigolion wrth eu gwylio'n chwarae – fasa'n ddiddorol dros ben gweld ei adroddiad amdanom.

Diolch i Osian am ddiwrnod Da!